**Ffurflen sampl, nid i'w chwblhau all-lein.**
Ewch i https://immersivearts.grantplatform.com i gwneud cais.

# Arbrofi

Mae'r ffrwd hon ar gyfer artistiaid sydd ag syniad neu gysyniad creadigol y maent am ei ddatblygu a'i brofi gyda chynulleidfaoedd bach neu grwpiau ffocws. Mae'n cefnogi artistiaid i:

• greu gweithiau arbrofol, prawf-o-gysyniadau neu brototeipiau i'w profi gyda chynulleidfaoedd bach er mwyn cael mewnwelediadau neu ddysgu
• arbrofi gyda thechnoleg ymdrochol mewn ffordd sy'n newydd, neu sy'n datblygu eu ymarfer
• gwreiddio mynediad, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n berthnasol i'w prosiect
Nid ydym yn disgwyl i chi greu gwaith gorffenedig gyda chyllid Arbrofi (er y gallwch wneud hynny os dymunwch), ond disgwylir i chi brofi eich prosiect gyda chynulleidfa fach neu grŵp defnyddwyr, ac ysgrifennu adroddiad byr ar y diwedd.

**Meini Prawf**
Mae'r cynnig:

1. yn cyfleu syniad artistig cryf a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i arbrofi gyda thechnoleg ymdrochol.
2. yn amlinellu rhesymeg a chynllun clir ar gyfer profi'r gwaith gyda chynulleidfa, ac yn gallu mynegi sut fydd hyn yn cael effaith ar ddatblygiad y prosiect.
3. â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar ymarfer creadigol yr ymgeisydd.
4. yn cynnwys ystyriaethau hygyrchedd, amrywiaeth a/neu gynhwysiant perthnasol a phriodol wrth ddatblygu'r gwaith.
5. yn cynnwys cyllideb ac amserlen sy'n berthnasol, yn glir ac yn gyraeddadwy.
6. yn nodi adnoddau priodol, ac yn amlinellu'n glir unrhyw aelodau tîm, cydweithwyr, partneriaid, cyfleusterau a/neu dechnoleg berthnasol sydd eu hangen.

**Crynodeb**

Cyfanswm yr Adrannau: 7
Cyfanswm y Cwestiynau: 38
Nifer y geiriau yn fras: 1350 – 1590 o eiriau

Enw cais

[ ]

Atebwch y cwestiynau yn yr adran hon i wirio a ydych yn gymwys i wneud cais am y ffrwd ariannu hon.

Cyfarwyddiadau:

1 – Ticiwch neu dewiswch yr atebion sy'n berthnasol i chi

2 – Pwyswch y botwm **Gwirio Cymhwystra**. Bydd hyn yn gwirio a ydych yn gymwys i wneud cais

Yn seiliedig ar y canllawiau ariannu. Os ydych yn gymwys, gallwch symud ymlaen i ddechrau eich cais.

Rydych chi'n gymwys 1

◯ Os ydych chi'n artist unigol, yn ymarferydd creadigol neu'n dechnolegydd creadigol

◯ Os ydych chi'n gwneud cais ar ran sefydliad celfyddydol, casgleb neu grŵp bach (10 o bobl neu lai)

Rydych chi'n gymwys 2

- [ ] Os ydych chi'n byw yng ngwledydd Prydain
- [ ] Os ydych chi'n 18 oed neu'n hŷn
- [ ] Os yw eich cais yn cael ei arwain gan artist a/neu'n canolbwyntio ar y celfyddydau
- [ ] Os yw eich cynnig yn cynnwys prototeipio neu brofi gwaith celf ymdrochol sy'n defnyddio technoleg er mwyn mynd ati i gynnwys y gynulleidfa (ein diffiniad ni o gelfyddyd ymdrochol)
- [ ] Os ydych chi'n gwneud cais am y swm llawn
- [ ] Os oes gennych gyfrif banc yng ngwledydd Prydain yn eich enw eich hunan
- [ ] Os yw eich cyllideb yn cynnwys taliad am eich amser chi ac amser pobl eraill sy'n rhan o'r prosiect, ac nad yw'n cynnwys unrhyw gostau anghymwys. Gweler ein canllawiau am fwy o fanylion

Darllenwch y Canllawiau am ragor o fanylion

Enw Llawn

E-bost

Ffôn

Enw'r Sefydliad (dewisol)

Rôl yn y Sefydliad (dewisol)

Nifer y staff (dewisol)

Gwefan (dewisol)

Ydych chi wedi'ch lleoli yn

- ○ Lloegr
- ○ Gogledd Iwerddon
- ○ Yr Alban
- ○ Cymru

Cod post

Nodwch eich tref / dinas agosaf.

Dywedwch wrthym ble bydd y rhan fwyaf o’ch gweithgarwch arfaethedig yn digwydd (os yw’n wahanol i’r lleoliad a roesoch yn y cwestiwn blaenorol). (dewisol)

Tref / Dinas / Rhanbarth

**Cais am Wybodaeth Ddemograffig**

Mae tystiolaeth glir bod pobl yn y DU yn wynebu anfantais anghyfiawn ar sail rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd (ymhlith ffactorau eraill). Mae’r anghydraddoldebau hyn wedi’u dogfennu’n dda yn y celfyddydau, ac yn aml yn fwy amlwg pan fydd technoleg yn rhan o’r gwaith. Mae partneriaid Celfyddydau Ymdrochol o’r farn na fydd hyn yn newid oni bai bod cyllidwyr yn gweithredu’n rhagweithiol.

Rydyn ni’n gofyn felly i chi ddatgelu rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi eich hunan ar y cam yma os ydych chi’n teimlo y gallwch wneud hynny.

Bydd pob ymgeisydd i'r alwad yma’n cael ei asesu a'i sgorio yn erbyn ystyriaethau pwy sy’n Gymwys a’r Meini Prawf ariannu gan adolygwyr allanol fydd ddim yn cael mynediad at eich atebion i'r cwestiynau yma. Dim ond gydag aelodau dethol o Grŵp Rheoli a Thîm Gweithrediadau Celfyddydau Ymdrochol y bydd y wybodaeth rydych chi’n ei rhoi yma’n cael ei rhannu, er mwyn sicrhau cydbwysedd ar gam olaf y broses (yn ogystal â sicrhau ein bod ni’n ariannu ystod amrywiol o syniadau a ffurfiau ar gelfyddyd gydag
amrywiaeth hefyd o ran daearyddiaeth a phrofiadau byw).

Rydyn ni’n ceisio cydbwyso beth sy'n rhesymol i'w ofyn i chi ar gam cynnar, gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnon ni i sicrhau newid gwirioneddol – felly dim ond am y tri maes yma o anghydraddoldeb sylweddol rydyn ni’n holi nawr.
Bydd gwybodaeth ddemograffig fwy cynhwysfawr yn cael ei chasglu gan ymgeiswyr llwyddiannus yn ddienw yn ddiweddarach. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth lawnach yma i ddeall pa mor dda rydyn ni’n cynrychioli poblogaethau pob gwlad.

☐ Gan fod y wybodaeth hon yn cael ei hystyried yn ddata o gategori arbennig o dan gyfreithiau diogelu data, mae angen eich cydsyniad penodol arnom i gasglu a phrosesu’r data hwn.

Mae darparu’r wybodaeth hon yn wirfoddol, ac mae gennych yr opsiwn i ddewis "yn well gen i beidio â dweud" os nad ydych yn dymuno datgelu’r wybodaeth hon.
• Eich Hawliau:
Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â info@immersivearts.uk

Drwy glicio'r blwch hwn, rwy'n rhoi fy nghydsyniad penodol i gasglu a defnyddio fy nata demograffig fel y'i rhoddir yn y 3 cwestiwn nesaf. (dewisol)

Beth yw enw’ch cynnig? 5 gair

Nodwch y teitl dros dro ar gyfer y gweithgarwch arfaethedig. Dylai gyfleu rhywbeth am yr hyn rydych chi’n bwriadu ei wneud.

Nodwch grynodeb o'r hyn rydych chi’n bwriadu ei wneud. 75 gair

Mewn 1-3 brawddeg, soniwch wrthon ni am eich syniad ar gyfer eich gwaith celf ymdrochol. Meddyliwch am hyn fel crynodeb o'ch cais, gallai fod yn rhywbeth y byddwch chi'n ei wneud ar ôl i chi gwblhau'r rhannau eraill.

Nodwch ddisgrifiad mwy manwl o'r syniad celfyddydau ymdrochol rydych chi am ei brofi. 200 gair

Disgrifiwch yr hyn rydych chi am ei greu drwy arbrofi gyda thechnolegau ymdrochol. Gallech gynnwys disgrifiadau o; beth ydyw; fformat y profiad; beth sy'n digwydd yn ystod y profiad; sut mae cymryd rhan yn teimlo; neu unrhyw wybodaeth gefndirol neu gyd-destunol a fydd yn ein helpu i ddeall eich syniad.

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer profi eich prosiect gyda chynulleidfa? Beth ydych chi'n gobeithio ei ddysgu o hyn a sut fydd hyn yn cael effaith ar ddatblygiad eich prosiect? 300 gair

Mae cyllid Arbrofi yn gofyn am brofi eich prosiect gyda chynulleidfa fach neu grŵp defnyddwyr. Gall hyn fod yn anffurfiol a does dim angen iddo fod yn ddigwyddiad cyhoeddus nac yn arddangosfa. Amlinellwch yr agweddau rydych chi am eu profi, gyda phwy a sut y byddwch chi'n gwneud hynny. Soniwch wrthon ni am unrhyw wybodaeth y gallech ei chasglu, yr hyn rydych chi'n gobeithio ei ddysgu a sut fydd hynny'n bwydo i ddatblygiad y prosiect.

Pa dechnolegau ymdrochol ydych chi'n bwriadu eu defnyddio?

- ☐ Fideo 360 gradd
- ☐ Realiti Estynedig (AR)
- ☐ Sain Deuglust
- ☐ Realiti Ymestynnol (XR)
- ☐ Adborth cyffyrddiadol a synhwyraidd
- ☐ Realiti Cymysg (MR)
- ☐ Amgylcheddau ymatebol
- ☐ Sain Ofodol
- ☐ Cyfrifiadura Gofodol
- ☐ Realiti Rhithwir (VR)
- ☐ ...

Rydyn ni'n awgrymu dewis hyd at 2 neu 3.

Os ateboch chi arall, gallwch nodi'r manylion yma (dewisol) 5 gair

Pam ydych chi wedi dewis y dechnoleg neu'r technolegau uchod? Sut ydych chi'n bwriadu eu defnyddio a sut fyddan nhw'n mynd ati i gynnwys eich cynulleidfa(oedd)? 300 gair

Amlinellwch y technolegau, yr offer, y cyfarpar, y cyfleusterau neu'r arbenigedd technegol rydych chi'n bwriadu eu defnyddio ar gyfer eich prosiect. Dylech nodi sut mae'r rhain yn berthnasol i'ch cysyniad, eich syniadau a'ch cynulleidfa(oedd).

Sut fyddwch chi'n ystyried hygyrchedd, amrywiaeth a/neu gynhwysiant wrth ddatblygu'r prosiect? 150 gair

Nod y rhaglen yw chwalu rhwystrau i bobl o bob cefndir a gallu i ymgysylltu â chelfyddydau ymdrochol. Amlinellwch sut y gallai eich cynnig prosiect chi fynd i'r afael â hyn yn ystod y cam creu a/neu'r cam profi gyda'r gynulleidfa. Dydyn ni ddim yn disgwyl i chi fod â'r atebion i gyd, ond rydyn ni am ddeall unrhyw gamau a allai gael effaith gadarnhaol ar eich prosiect.

Dewiswch y ffurf(iau) ar gelfyddyd sy'n disgrifio'ch ymarfer creadigol orau

- [ ] Pensaernïaeth
- [ ] Crefft
- [ ] Ysgrifennu Creadigol
- [ ] Dawns
- [ ] Dylunio
- [ ] Ffilm
- [ ] Dylunio Gemau
- [ ] Cerddoriaeth
- [ ] Sain
- [ ] Theatr
- [ ] ...

Os ateboch chi arall, gallwch nodi'r manylion yma (dewisol) — 5 gair

Disgrifiwch eich ymarfer creadigol presennol, a chyfeiriwch at hyd at ddau brosiect blaenorol neu gyfredol sy'n berthnasol i'ch cynnig. — 300 gair

Soniwch amdanoch eich hunan a'ch gwaith. Cofiwch gynnwys gwybodaeth fydd yn ein helpu i ddeall neu gefnogi eich syniad arfaethedig. Er enghraifft, gallai hyn fod yn fywgraffiad byr a disgrifiadau byr o hyd at ddau ddarn o waith celf blaenorol neu gyfredol, neu brosiectau creadigol.

I gefnogi'ch atebion blaenorol, gallwch ddarparu hyd at dair dolen, neu uwchlwythiadau, o weithiau perthnasol.

Rhannwch ddolenni neu uwchlwythiadau o brosiectau blaenorol neu gyfredol (uchafswm o 3). Byddwch yn benodol ynglŷn â'r hyn rydych chi eisiau i ni edrych arno (e.e. tudalennau gwe, prosiectau, erthyglau, ac ati), yn hytrach na rhannu tudalen hafan gwefan gyffredinol neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol cyfan. Darllenwch y canllawiau ar ddogfennau ategol i gael gwybodaeth am fformat, maint a hyd. Dydyn ni ddim am i chi greu dim byd newydd ar gyfer yr adran yma, a ddylech chi ddim ei defnyddio i ychwanegu geiriau ar gyfer unrhyw un o'r adrannau neu gwestiynau eraill.

Hyd at 3 ddolen we / ffeil berthnasol i'w huwchlwytho. (dewisol)

| | Dolen | Nodyn i adolygwyr - 10 gair i bob dolen |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |

Uwchlwytho Ymarfer Creadigol (dewisol)

Canllawiau ar ddogfennau ategol
Gallwch uwchlwytho dogfennau neu ddolenni i gefnogi'ch cais, ond gwnewch yn siŵr eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:
Dolenni gwe
Rhowch ddolenni at dudalennau penodol, prosiectau penodol, erthyglau penodol, ac ati, yn hytrach na gwefan gyffredinol.
Uchafswm o dair tudalen neu sleid ddylai fod mewn dogfen, a ddylai dogfen ddim bod yn fwy na 5MB. Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .pdf/ .doc/ .docx/ .ppt/ .pptx/ .xls/ .xlsx
Ddylai ffeiliau delwedd ddim bod yn fwy na 5MB
Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .jpeg/ .jpg / .png/ .gif
Ddylai ffeiliau fideo ddim bod yn fwy na 10MB
Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .mp4/ .mov/ .avi
Ddylai ffeiliau sain ddim bod yn fwy na 10MB
Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .mp3/ .wav/ .aac
Sylwch mai dim ond gwerth deg munud o ffeiliau sain a fideo y gallwn ni eu hystyried. Os yw'r ffeil rydych chi'n ei rhannu yn hirach na hynny, nodwch y codau amser ar gyfer y deg munud yr hoffech i ni ei ystyried.

Pwy arall sy'n rhan o'r prosiect? Dylech gynnwys unrhyw gydweithwyr, partneriaid neu aelodau tîm, eu rolau a statws y perthnasoedd hynny

| | Rôl | Disgrifiad cryno o'r rôl 10 gair fesul enw | Enwau - Pan fo hynny'n berthnasol, ychwanegwch enwau unrhyw un penodol sydd gennych mewn golwg | Statws - wedi cadarnhau eu bod ar gael / disgwyliedig / heb gysylltu eto |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | |
| 2 | | | | |
| 3 | | | | |

Rhestrwch unrhyw bobl neu sefydliadau rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw. Rhowch ddisgrifiad byr o'r math o rolau sydd eu hangen arnoch i wireddu eich syniad a statws y perthnasoedd hynny. Er enghraifft, gallai hyn fod yn artist, yn gydweithiwr, yn dechnolegydd, yn fentor, yn stiwdio neu'n lleoliad. Does dim angen i chi fod yn eu nabod na bod mewn cysylltiad â nhw eto, ond dylech wahaniaethu rhwng y rhai sydd wedi'u cadarnhau a'r rhai sydd i'w cadarnhau yn nes ymlaen. Dylech hefyd nodi'r rhai sydd â phrofiad o weithio gyda thechnolegau ymdrochol.

Sut bydd y prosiect yma'n effeithio ar eich ymarfer creadigol chi a/neu'ch tîm? 200 gair

Soniwch wrthon ni am unrhyw sgiliau, profiadau, cysylltiadau penodol, neu unrhyw bethau eraill rydych chi'n gobeithio'u dysgu, eu datblygu neu eu profi. Rydyn ni'n cydnabod efallai nad oes gennych yr holl sgiliau a'r wybodaeth yn eich tîm ar hyn o bryd. Rydyn ni am ddeall sut y gallai ariannu a datblygu'r prosiect gael effaith gadarnhaol ar eich gwaith.

Dyddiad cychwyn y prosiect

Rydyn ni'n disgwyl y bydd prosiectau Arbrofi yn rhedeg am hyd at naw mis, Chwefror - Hydref 2026.

Dyddiad gorffen y prosiect

Rydyn ni'n disgwyl y bydd prosiectau Arbrofi yn rhedeg am hyd at naw mis, Chwefror - Hydref 2026.

Amlinellwch yr amserlen ar gyfer eich prosiect gan ddefnyddio'r

Templed Amserlen

, or

CSV

.

Defnyddiwch y templed amserlen i ddarparu amserlen syml, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau a cherrig milltir pwysig.

Cyllideb y Prosiect: darparwch ddadansoddiad o gyllideb eich prosiect gan ddefnyddio'r

Templed Cyllideb

or

CSV

.

Defnyddiwch y templed cyllideb i nodi sut rydych chi'n bwriadu gwario'r £20,000. Darparwch ddadansoddiad syml o'ch cyllideb, gan gynnwys costau deunyddiau, offer, ffioedd ac unrhyw gostau perthnasol eraill. Dydyn ni ddim yn disgwyl i chi gael dyfynbrisiau manwl ar hyn o bryd, ond byddwch mor gywir ag y gallwch. Gwnewch gais am yr £20,000 llawn, yn hytrach nag am symiau rhannol. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am y costau sy'n gymwys ac am gyflog teg. Does dim angen arian cyfatebol, fydd ceisiadau ddim yn cael sgôr uwch am fod ag arian ychwanegol. Mae croeso i chi rannu manylion am gyllideb prosiect ehangach os ydych chi'n teimlo ei fod yn rhoi cyd-destun defnyddiol. Ond dylech ddangos yn glir ar gyfer beth fydd arian Celfyddydau Ymdrochol yn cael ei ddefnyddio.

Os oes angen i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol am eich cyllideb neu'ch amserlen, gallwch ei chynnwys yma. (dewisol) 50 gair

Os oes unrhyw fanylion nad oedd digon o le ar eu cyfer yn y templedi, ond fyddai'n ein helpu i ddeall eich amserlen neu'ch cyllideb yn well, gallwch eu cynnwys yma.

**Gwahoddiad i gymryd rhan yn ymchwil Celfyddydau Ymdrochol**

Diolch am wneud cais i un o gyfleoedd ariannu rhaglen Celfyddydau Ymdrochol.

Yn ogystal â chynnig cyllid, mae Celfyddydau Ymdrochol yn rhaglen ymchwil ledled gwledydd Prydain. Rydyn ni'n gweithio er mwyn deall yn well sut mae artistiaid a chynulleidfaoedd yn cysylltu â thechnolegau ymdrochol, ac yn archwilio beth arall y gallai fod ei angen er mwyn i'r sector yma ddatblygu mewn ffordd gynhwysol, hygyrch a chynaliadwy.

Fe hoffen ni'ch gwahodd chi i gyfrannu'r wybodaeth rydych chi newydd ei chyflwyno, i astudiaeth ymchwil sy'n cael ei chynnal gan bartneriaid ymchwil Celfyddydau Ymdrochol, sef Prifysgol Gorllewin Lloegr a Phrifysgol Bryste. Bydd cyfrannu'ch gwybodaeth i'r astudiaeth fel hyn yn helpu i sicrhau bod yr ymchwil yn gynrychioliadol ac yn gywir, a bod y canlyniadau'n ystyrlon ac yn ddefnyddiol i'r gymuned greadigol.

Os byddwch chi'n cydsynio i'r hyn rydych chi wedi'i gyflwyno gael ei ddefnyddio fel hyn, bydd y tîm ymchwil yn cael mynediad at fersiwn ddienw o'r wybodaeth rydych chi wedi'i chyflwyno. Bydd eich enw chi, enwau'ch cydweithwyr ac enw unrhyw gwmni/gwmnïau a phrosiectau wedi cael eu dileu.

Bydd eich data'n cael ei storio mewn lleoliad diogel a dim ond yr ymchwilwyr fydd yn cael mynediad ato, yn unol â gofynion y Brifysgol a Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr HYSBYSIAD PREIFATRWYDD.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn gwbl wirfoddol a gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl hyd at bythefnos ar ôl rhoi cydsyniad cychwynnol. Ar ôl pythefnos, bydd eich gwybodaeth wedi cael ei throi'n gwbl ddienw ac yn cael ei dadansoddi gyda data arall gan ei gwneud hi'n amhosib ei dileu.

Chi sy'n cadw'r hawliau llawn i eiddo deallusol y syniadau rydych chi wedi'u cyflwyno, a fydd tîm ymchwil Celfyddydau Ymdrochol byth yn datgelu manylion eich prosiect na'ch ymarfer creadigol mewn unrhyw ddeilliannau ymchwil. Mae'r tîm yn chwilio am dueddiadau, tebygrwyddau a gwahaniaethau ar draws y set gyfan o wybodaeth ddienw fydd yn cael ei chyflwyno, a bydd yn gofalu peidio cyfeirio at syniadau, pobl, sefydliadau neu weithiau celf penodol, yn uniongyrchol na thrwy awgrym, mewn unrhyw allbwn fydd yn cael ei gyhoeddi.

Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu rhannu drwy wefan Celfyddydau Ymdrochol, immersivearts.uk a drwy gyhoeddiadau a digwyddiadau academaidd a diwydiant e.e. cynadleddau a chyfnodolion sy'n cael eu hadolygu gan gyfoedion.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i dynnu cydsyniad yn ôl, cysylltwch â'r prif ymchwilydd, Verity McIntosh verity.mcintosh@uwe.ac.uk

Mae'r prosiect wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Gorllewin Lloegr. Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau, cwestiynau neu gwynion am ymddygiad moesegol yn yr astudiaeth yma at y Pwyllgor Moeseg Ymchwil ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr drwy:

Researchethics@uwe.ac.uk

**PWYSIG:** Fydd eich penderfyniad i gydsynio neu beidio ddim yn dylanwadu mewn unrhyw ffordd ar sut bydd y cais rydych chi newydd ei gyflwyno yn cael ei asesu. Fydd yr aseswyr sy'n adolygu'ch cais ddim yn cael gwybod a ydych wedi cydsynio i'ch gwybodaeth gael ei rhannu â'r tîm ymchwil ai peidio.

Diolch yn fawr iawn.

Cydsyniad ymchwil

◯ Rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r wybodaeth rydw i wedi'i chyflwyno gael ei rhannu'n ddienw â thîm ymchwil Celfyddydau Ymdrochol.

◯ Dydw i ddim yn rhoi fy nghydsyniad i'r wybodaeth rydw i wedi'i chyflwyno gael ei rhannu'n ddienw â thîm ymchwil Celfyddydau Ymdrochol.